# Beirniadaeth (391) Portffolio Cefn Llwyfan 19-25 oed

**Cadi Davage (Rhosyn Pigog). 2il**

- Da fydda bod wedi ca'l rhyw fath o gyflwyniad byr am danot dy hun fel person a dy ddiddordebau cyn myn yn syth mewn i'r schbiel.
- Gwych i weld y cariad at y byd theatr yn cael ei sbarduno wrth weithio ar sioe yn yr ysgol
- Paid a bod ofn mynd mewn i fanylder ddyfnach pan yn trafod elfennau technegol. Mae'r unigolyn sy'n ei ddarllen unai yn mynd i'w ddeallt neu ddim, ond yn bwysicaf oll ma dda i ti ddangos dy ddealltwriaeth amlwg.
- Da i weld bod y profiadau megis 'Milodfa' wedi bwydo mewn i dy ddealltwriaeth gwir fyd o'r straen mae gwaith fel hyn yn gallu ei gael ar gorff unrhyw un. A dy fod wedi gwrandi i dy gorff a gwybod pryd i gamu i ffwrdd yn rhywbeth iw glodfori.
- Mae'n drawiadol gweld y gwrthgyferbyniaeth rhwng y gwaith rwyt wedi'i brofi hyd yma. Mae cynllunio goleuo theatr a chynyrchu ffilmiau yn dra-wahanol, a mae'n wych dy fod yn rhoi tro arni mewn mwy nag un maes ar y pwynt yma yn dy yrfa.
- Portffolio da iawn ar y cyfan. Efallai yn methu ychydig ar nodi sut mae pob prosiect gwahanol wedi helpu i ddatblygu dy ddealltwriaeth a sgiliau.
- Mae dy angerdd am dy waith a'r eisiau i ddysgu yn mynd i fynd a chdi'n bell. Dal ati!

**Elinor Haf Roderick (Canna). 1af**

- Agoriad da. Cyflwyno dy hun mewn ffordd eglur a bywiog.
- Bydda cael disgrifiad o sut rwyt wedi delio hefo unrhyw dasgau annisgwyl 'on the fly' wedi bod yn ychwanegiad da. Gwyl Werin Girvan yn nodi hyn, ond beth am fynd mewn i'r penderfyniadau dan bwyasau yn fanylach.

- Mor falch o weld dy fod wedi cael cymaint o gyfleoedd sy'n rhoi cyfle i ti gyfuno dy gefndir cerddorol. Clod i ti am fod wedi anelu am hyn a darganfod y cyfle yn gynnar yn dy yrfa.
- Clôd arbennig i ti am egluro termau fel GV's & PSC. Nid pawb sy'n ymwybodol o hyn.
- Rwyt yn amlygu'r hyn sydd yn 'transferrable skills' yn dda. A hynny hefyd mewn ffordd sy'n plethu'n wych rhwng pob sleid yn dy bortffolio
- Mae cig y gwaith gyda'r Amgueddfa yn fawr. Swnio fel bod dipyn o waith ar dy 'sgwyddau yma ac mae'n dda i ti fod wedi nodi yr holl adrannau eraill ti'n gweithio'n agos gyda. Rwyt yn trafod yn dda sut mae pob prosiect wedi datblygu dy ddealltwriaeth o logisteg a dy sgiliau personol.
- Dwi'n ffan mawr o'r term 'arweinyddiaeth tawel'. Hwn yn dod i fyny tra'n trafod cyfle gwirfoddol i ti. Mae'n amlwg bod dy ymroddiad yn fawr boed mewn gwaith sydd a thâl a'i pheidio.
- Portffolio trylwyr clir sy'n dangos dy angerdd am y celfyddydau yn enwedig drwy lens cerddoriaeth. Mae gen ti gysylltiadau da i'w weld yn barod. Dal ati i adeiladu ar rhain.